**CBAC Lefel 2 – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd**

# Uned 001 – Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)

## Trosolwg o Uned 001

Yn Uned 001, gwnaethom edrych ar sut mae **cyfreithiau, polisïau cenedlaethol** a **chanllawiau'r** DU yn cefnogi **lles** a **datblygiad** plant. Gwnaethom hefyd archwilio pwysigrwydd hyrwyddo **cydraddoldeb, amrywiaeth** a **chyfathrebu effeithiol**.

Yn ogystal, buom yn trafod **effaith newid** ar blant a dysgu sut i feithrin **perthnasoedd cadarnhaol** o fewn **ffiniau proffesiynol.**



## DD1: Deall sut mae deddfwriaeth, polisïau, canllawiau a fframweithiau cenedlaethol yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

- Ydw i'n gyfarwydd â'r **ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau** a'r **Codau Ymddygiad** allweddol sy'n rheoli ymarfer yng Nghymru?
- Ydw i'n gallu meddwl am enghreifftiau o sut maen nhw'n **diogelu** ac yn **hyrwyddo** lles a datblygiad plant?
- Ydw i'n deall pam mae'r egwyddorion a'r deddfwriaethau hyn yn **bwysig** a sut y maent yn gallu cefnogi mewn ffordd ymarferol?

## DD2: Deall sut mae dulliau seiliedig ar hawliau yn berthnasol i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

- Ydw i'n deall ystyr **dull seiliedig ar hawliau**?
- Ydw i'n gwybod sut mae **deddfwriaeth** a **pholisïau cenedlaethol** yn **cefnogi dull seiliedig ar hawliau** a beth mae hyn yn ei olygu **yn ymarferol**?
- Ydw i'n gwybod beth mae'r term **'eiriolaeth'** yn ei olygu a sut y gall hyn gefnogi **dull sy'n seiliedig ar hawliau**?
- Ydw i'n gwybod sut y gellir **cefnogi** plant a'u teuluoedd/gofalwyr i **wneud cwyn** neu **fynegi pryder** am wasanaeth?

## DD3: Deall sut i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

- Ydw i'n gwybod beth yw ystyr y termau **'cydraddoldeb', 'amrywiaeth', 'cynhwysiant'** a **'gwahaniaethu'?**
- Ydw i'n gallu meddwl am ffyrdd y mae **dulliau plentyn ganolog** yn hyrwyddo'r gwerthoedd hyn?
- Rwy'n deall sut mae **cefndiroedd amrywiol** plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael eu **gwerthfawrogi yng Nghymru**?
- Ydw i'n gwybod sut i **herio arferion** sy'n groes i **gydraddoldeb ac amrywiaeth**?

## DD4: Deall sut i ddefnyddio dulliau plentyn ganolog.

- Ydw i'n gwybod beth mae'r term **'dull plentyn ganolog'** yn ei olygu a pham ei fod yn **bwysig** wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc?
- Ydw i'n deall cysyniadau fel **'gweithio ar y cyd', 'llais, dewis a rheolaeth'**, a **'gweithgareddau a phrofiadau'**, a sut maen nhw'n cyd-fynd â **dulliau plentyn ganolog**?
- Ydw i'n deall sut mae'n helpu **i ddeall** a **pharchu dymuniadau, dewisiadau** a **chefndir plentyn**?
- Ydw i'n gwybod pam ei bod hi'n **hanfodol** trin pob plentyn ag **urddas** a **pharch?**
- Ydw i'n deall pwysigrwydd **'cyfrifoldeb rhiant'**, a sut mae'n llywio r**hyngweithiadau** a **phenderfyniadau** wrth gefnogi plant?
- Ydw i'n gwybod gweithdrefnau o ran **cael cydsyniad** gan deuluoedd a phlant pan fo angen, a pham mae hyn yn **bwysig**?

**CBAC Lefel 2 – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd**

# Uned 001 – Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)

## Trosolwg o Uned 001

Yn Uned 001, gwnaethom edrych ar sut mae **cyfreithiau, polisïau cenedlaethol** a **chanllawiau'r** DU yn cefnogi **lles** a **datblygiad** plant. Gwnaethom hefyd archwilio pwysigrwydd hyrwyddo **cydraddoldeb, amrywiaeth** a **chyfathrebu effeithiol**.

Yn ogystal, buom yn trafod **effaith newid** ar blant a dysgu sut i feithrin **perthnasoedd cadarnhaol** o fewn **ffiniau proffesiynol.**



## DD5: Deall sut mae bod yn gadarnhaol wrth gymryd risgiau yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant.

- Ydw i'n gwybod beth mae'n ei olygu i **gymryd risgiau** o ystyried **lles plant** a pham mae hyn yn **bwysig**?
- Ydw i'n deall sut mae **hawliau plant** yn ymwneud â gwneud **dewisiadau** a chymryd **risgiau**, a pham y dylem ystyried **oedran** a **chyfnod datblygiad** plentyn wrth gefnogi cymryd risg?
- Ydw i'n gallu rhoi **enghreifftiau** o gamau y dylid eu cymryd i gefnogi plant mewn **cymryd risg**, gan ystyried yr **amgylchedd** a **phrofiadau bywyd** sy'n dylanwadu ar hyn?
- Ydw i'n gallu egluro beth yw ystyr **'asesiad risg a budd'** a **'chanlyniadau cadarnhaol'** a sut mae hyn yn berthnasol i risgiau a dewisiadau mewn gweithgareddau plant?

## DD6: Deall llesiant yng nghyd-destun gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.


- Ydw i'n gallu egluro ystyr y term **'llesiant'** a pham ei fod yn **bwysig**?
- Ydw i'n gallu nodi **ffactorau** sy'n **effeithio** ar les plant a'u teuluoedd?
- Ydw i'n gwybod pa rôl mae **teuluoedd, gofalwyr** a **'phobl bwysig eraill'** yn eu chwarae wrth gefnogi a gwella **lles plentyn**?
- A allaf roi enghreifftiau o **ffyrdd o weithio** sy'n cefnogi **lles** a **chynhwysiant?**

## DD7: Deall sut i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol yng nghyd-destun 'ffiniau proffesiynol'.

- A allaf egluro beth mae **'gweithio perthynas - ganolig'** yn ei olygu yn ymarferol?
- Ydw i'n deall pwysigrwydd **ffurfio perthynas gadarnhaol** gyda phlant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol o fewn ffiniau proffesiynol diffiniedig?
- Ydw i'n gallu adnabod arferion sy'n **annerbyniol** wrth **gynnal perthnasoedd proffesiynol**, ac egluro pam y maent yn cael eu hystyried yn amhriodol?

## DD8: Deall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

- A allaf ddiffinio **'cyfathrebu effeithiol'** ac egluro **pam ei fod yn hanfodol** mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant?
- Ydw i'n gwybod pa **sgiliau hanfodol sydd eu hangen** ar gyfer **cyfathrebu effeithiol** a sut mae **cyfnod datblygiad** plentyn yn effeithio ar y sgiliau hyn?
- Ydw i'n gallu adnabod **rhwystrau posibl i gyfathrebu** ac awgrymu **ffyrdd o'u goresgyn**?
- Ydw i'n gallu **nodi anghenion, dymuniadau a dewisiadau** cyfathrebu plentyn a'i deulu, ac a ydw i'n deall pam mae hyn yn **bwysig**?
- Ydw i'n gallu **adnabod** ac **ymateb** i'r gwahanol ffyrdd y mae plant yn defnyddio **chwarae** ac **ymddygiad** i gyfathrebu?



**CBAC Lefel 2 – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd**

# Uned 001 – Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)

## Trosolwg o Uned 001

Yn Uned 001, gwnaethom edrych ar sut mae **cyfreithiau, polisïau cenedlaethol** a **chanllawiau'r** DU yn cefnogi **lles** a **datblygiad** plant. Gwnaethom hefyd archwilio pwysigrwydd hyrwyddo **cydraddoldeb, amrywiaeth** a **chyfathrebu effeithiol**.

Yn ogystal, buom yn trafod **effaith newid** ar blant a dysgu sut i feithrin **perthnasoedd cadarnhaol** o fewn **ffiniau proffesiynol.**



## DD9: Deall pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ar gyfer gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

- Ydw i'n gallu rhestru **deddfwriaeth allweddol** a **pholisïau cenedlaethol** sy'n cefnogi'r **iaith Gymraeg**?
- Ydw i'n ymwybodol o **fuddion** bod yn **ddwyieithog** neu'n **amlieithog** mewn gofal, dysgu a datblygiad plant?
- Ydw i'n gallu egluro pam ei fod yn hanfodol **cydnabod** a **chefnogi'r iaith Gymraeg** a **diwylliant Cymru**?
- Ydw i'n gwybod sut i **gefnogi plant** i **ddysgu ieithoedd newydd**, gan gynnwys **y Gymraeg**?
- Pa mor bwysig yw **hybu gweithgareddau** sy'n hyrwyddo'r **iaith Gymraeg** a **diwylliant Cymru** o ran dysgu a datblygiad plant?

## DD10: Gwybod sut y gellir defnyddio dulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol plant.

- A allaf egluro beth yw ystyr **'dulliau cadarnhaol'** a **'chefnogaeth ymddygiad cadarnhaol'**?
- Ydw i'n deall yr **achosion sylfaenol** sy'n gallu dylanwadu ar **ymddygiad plant**?
- Ydw i'n gallu trafod sut i weithio gyda phlant a'u teuluoedd i **sefydlu nodau cyflawnadwy** ar gyfer annog ymddygiad cadarnhaol?
- Ydw i'n gwybod pa **sgiliau** a **thechnegau** sy'n ddefnyddiol i gefnogi **ymddygiad cadarnhaol** plant?

## DD11: Deall sut mae newid a thrawsnewid yn effeithio ar blant.

- Ydw i'n gallu adnabod gwahanol fathau o **newid** a **thrawsnewid** y gall plant eu profi?
- Ydw i'n deall pa **ffactorau** all wneud y newidiadau hyn yn **haws** neu'n **anoddach** i blant?
- A allaf ddisgrifio sut i helpu plant i **ddatblygu'r** sgiliau sydd eu hangen arnynt i **reoli newid a thrawsnewid**?

## DD12: Deall sut y gall eich credoau, gwerthoedd a phrofiadau bywyd eich hun effeithio ar agwedd ac ymddygiad tuag at blant a'u teuluoedd/gofalwyr.

- Ydw i'n gallu adnabod sut y gallai **fy nghredoau** a'm **gwerthoedd** fy hun **ddylanwadu** ar fy **ymddygiad** tuag at blant a'u teuluoedd?
- A allaf **fyfyrio** ar sut y gallai fy **ymddygiad** effeithio ar blant a'u teuluoedd neu eu gofalwyr?

